# Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

**Hydref 2015**

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br><br>Cydweithrediad a Phartneriaeth dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | |
| **Dyddiad**: | Hydref 2015 |
| **Arweinydd polisi**: | Steve Vaughan |
| **Manylion cyswllt:** | 029 2082 3498 |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Dylai'r asesiad hwn o'r effaith ar y Gymraeg gael ei ddarllen ar y cyd â'r asesiadau eraill o'r effaith ar y Gymraeg a gwblhawyd mewn perthynas â'r Ddeddf. Bydd Rhan 9 o'r Ddeddf mewn perthynas â chydweithrediad a phartneriaeth ynddi'i hun yn effeithio ar yr holl grwpiau defnyddwyr gan gynnwys plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl â phroblemau iechyd meddwl, gofalwyr, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau a.y.b. Mae hefyd yn berthnasol i ystod eang o swyddogaethau gan gynnwys asesu, cynllunio gofal, diogelu a chomisiynu a darparu gwasanaethau. Dyna pam fod angen darllen y ddogfen hon ar y cyd ag Asesiadau eraill o'r Effaith ar y Gymraeg.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- Hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad;
- Darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth am y meysydd yr oeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau gyda'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 21 Mai yng Ngwesty St George, Llandudno. Cynhaliwyd yr ail ar 4 Mehefin yn Stadiwm Liberty, Abertawe gyda 200 o bobl yn bresennol ar y cyfan, a hwythau'n cynrychioli ystod o sefydliadau. Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan y canlynol:

- Cynghrair Pobl Hŷn Cymru
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Cyngor Gofal Cymru
- Plant yng Nghymru
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- AGGCC
- Anabledd Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- CLlLC
- RNIB Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol y Gogledd

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob Rhan o'r Ddeddf yr ymgynghorwyd arni yng Nghyfres 2. Roedd cynnwys y gweithdai hyn wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond yn greiddiol i bob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a

gweithgareddau grŵp.

Cafodd y sylwadau a'r allbynnau o'r digwyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion ysgrifenedig ffurfiol er mwyn goleuo'r rheoliadau, y cod(au) ymarfer ac, mewn perthynas â Rhan 9, y canllawiau statudol terfynol.

Yn ogystal â'r broses hon o ymgynghori â'r cyhoedd, cafodd y cynigion eu trafod gyda'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid yn ogystal â'r grwpiau canlynol: Cyfarwyddwyr Gogledd Cymru, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu, y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal, y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru – Y De, Cynghrair Cynhalwyr Cymru a'r Panel Dinasyddion Cenedlaethol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos ynghylch y rheoliadau hyn a'r Cod Ymarfer sy'n cyd-fynd â hwy, a hynny rhwng 8/5/15 a 31/7/15. Mae'r Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad i'w weld yma:

http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/part9/?status=closed&lang=en

**Asesu'r Gystadleuaeth**

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen:

1- y Ddeddf ei hun;
2- rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf;
3- codau ymarfer/canllawiau statudol.

Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Effaith gyffredinol y rheoliadau yw darparu mwy o eglurder, cysondeb ac ansawdd gwell o ran y gofal a'r cymorth ar gyfer unigolion a gofalwyr. Byddant yn helpu Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol i greu seilwaith trwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, i fynd ati i integreiddio gwasanaethau lle y bo'n briodol. Bydd y pwerau gwneud rheoliadau'n sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a sicrhau darpariaeth o ran gwasanaethau, gofal a chymorth integredig i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardal leol yn y ffordd orau bosibl. Bydd hyn yn cynnwys datblygu modelau newydd a newid y ffocws tuag at wasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar. Mae angen y rheoliadau hefyd i ddisodli rheoliadau presennol a fydd yn cael eu diddymu pan ddaw'r Ddeddf i rym yn 2016.

Er y bydd ffocws rheoliadau'r Ddeddf ar wella canlyniadau a llesiant, mae'r rheoliadau yn Rhan 9 wedi'u bwriadu hefyd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a

ddarperir. Y man cychwyn ar gyfer hyn yw trwy adran 14 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol fynd ati ar y cyd i gynnal asesiad o anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol ac ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o gapasiti gwasanaethau presennol i ymateb i anghenion pobl y byddai'n well ganddynt gael eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn ei droi'n cael effaith ar gomisiynu gwasanaethau gyda'r gallu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o fanylebau gwasanaethau. (Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg – Cyngor dan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993). Bydd hyn yn dwyn goblygiadau pellach o ran monitro capasiti parhaus y darparwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i gomisiynwyr benderfynu'n union beth mae'n ofynnol i dendrwyr ei wneud i ateb gofynion o ran y Gymraeg trwy gydol oes y contract. Manteision integreiddio yw bod Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn aml yn prynu gwasanaethau gan yr un darparwyr megis, er enghraifft, cartrefi gofal. Dylai dull integredig mewn perthynas â chomisiynu wella capasiti'r ddau sefydliad i gynnal y broses gomisiynu trwy gyfrwng y Gymraeg a chynnig dull mwy cydlynol o weithio gyda darparwyr i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 166 – 168 o'r Ddeddf (trefniadau partneriaeth) yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod y strwythurau priodol (trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth) a'r adnoddau priodol (gan gynnwys staff a chyllidebau cyfun) yn eu lle i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau integredig i ymateb i'r asesiad ar y cyd.

Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwn yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau'. I lawer o siaradwyr Cymraeg bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau'n golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu a chyfranogi yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Felly mae'r cwestiwn a yw pobl yn cael gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn agwedd allweddol ar y datganiad llesiant. Bydd hyn yn cael ei fesur yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd llwyddiant yn cael ei fonitro ar sail cyflawni'r canlyniadau llesiant, gan ddefnyddio'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd mesurau canlyniadau'n cael eu datgan mewn perthynas â chyflawni'r canlyniadau a nodir yn y datganiad llesiant.

Mae datganiadau o ganlyniadau'n cynnwys pa un a yw pobl yn cael gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y mesurau canlyniadau'n adnabod ac yn amlygu'r hyn y mae angen ei wneud i wella llesiant pobl, yn hytrach na mesurau mwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar y prosesau.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol (a gyhoeddwyd o dan Adran 145) yn nodi fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol; mae hyn yn cynnwys safonau ansawdd i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau a mesurau perfformiad o ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r safonau ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, 'Mwy na Geiriau' neu mewn dewis ieithoedd eraill.

Y canlyniad a ddymunir ar gyfer Rhan 9 yw y gallwn, trwy gydweithrediad a phartneriaeth, wella canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.

Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau o ran asesiadau a darparu gofal yn uniongyrchol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd gan fyrddau partneriaeth rôl allweddol o ran dod â phartneriaid allweddol ynghyd i benderfynu ble y bydd darparu gwasanaethau, gofal a chymorth mewn modd integredig yn dwyn y budd mwyaf i bobl o fewn eu rhanbarth. Bydd byrddau partneriaeth yn cyflawni rôl hanfodol hefyd o ran trosolwg ar drefniadau partneriaeth a llywodraethu'r trefniadau hynny. Gyda'r newid i gyllidebau ac adnoddau cyfun, mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle.

Mae adran 166, adran 167(3) ac adran 168 yn rhoi'r ddarpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymrwymo i drefniadau partneriaeth a sefydlu byrddau partneriaeth (gan gynnwys trefniadau ariannu cysylltiedig).

Mae adran 166 yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi trwy reoliadau pa drefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol, neu rhwng un neu fwy o awdurdodau lleol ac un neu fwy o Fyrddau Iechyd Lleol. Mae hyn yn tybio y bydd y trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r priod Fyrddau Iechyd Lleol yn yr ardal ac na fydd unrhyw newid i olion traed presennol y Byrddau Iechyd Lleol.

Mae trefniadau partneriaeth yn drefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol a bennir mewn rheoliadau sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol neu sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cael effaith ar, neu yr effeithir arnynt gan, swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, neu swyddogaethau a bennir mewn rheoliadau sy'n swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol neu sy'n ymddiriedolaeth GIG. Nid yw'n fwriad ehangu swyddogaethau awdurdod lleol neu BILl y gellir eu dirprwyo y tu hwnt i'r rhai a ganiateir mewn deddfwriaeth bresennol.

Mewn perthynas ag adran 166, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu trefniadau partneriaeth ar y sail ganlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau lleol Wrecsam, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac awdurdodau lleol Penfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

- Bwrdd Iechyd addysgu Powys ac awdurdod lleol Powys.

Mae rheoliadau dan adran 166(3)(d) yn ei gwneud yn ofynnol rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, rhwng timau a sefydlir dan 166(4)(b) a chefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn hanfodol i'r gwaith o asesu anghenion unigolion a gofalwyr a datblygu trefniadau gofal a chymorth priodol.

Bydd rheoliadau dan adran 166(4) (b) yn cael eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol sefydlu timau ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Diben allweddol Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yw sicrhau bod teuluoedd yn cael gwasanaethau a chymorth er mwyn diogelu lles eu plant a'u galluogi i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd. Un egwyddor allweddol yw ei bod yn well i blant gael gofal o fewn eu teuluoedd, gyda'u rhieni'n chwarae rhan lawn yn eu bywydau – oni bai bod ymyriad gorfodol yn angenrheidiol. Mae adran 167(1) a (2) yn caniatáu i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol dalu tuag at y gwariant a dynnir at ddibenion trefniadau partneriaeth neu a dynnir yn gysylltiedig â'r trefniadau hynny trwy wneud taliadau'n uniongyrchol neu drwy gyfrannu at gronfa gyfun. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdod lleol a BILl ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill. Mae adran 167(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu cronfa gyfun a dyfarnu swm y cyfraniadau i gronfa gyfun.

Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r canlynol:

- Arfer swyddogaethau o ran llety mewn cartrefi gofal;
- Arfer swyddogaethau o ran cymorth i deuluoedd;
- Swyddogaethau a fydd yn cael eu harfer ar y cyd o ganlyniad i asesiad a gwblhawyd dan adran 14 o'r Ddeddf neu unrhyw gynllun a baratowyd dan adran 14A.

Bydd y dyletswyddau hyn yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016, ac eithrio'r ddyletswydd i sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r swyddogaethau o ran llety mewn cartrefi gofal, sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld dull integredig o ddatblygu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol. Ceir gofyniad penodol ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o setliad lleol i'w gwneud yn bosibl sefydlu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac i dalu am gostau gofal iechyd a gofal cymdeithasol y gwasanaeth. Bydd hyn yn sail i bartneriaeth ffurfiol â chronfa gyfun.

Er nad yw'r gofyniad ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â llety mewn cartrefi gofal yn dod i rym tan fis Ebrill 2018, bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Cynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddiad o'r farchnad, gan gynnwys anghenion hunan-arianwyr.
- Cytuno ar ddatganiad sefyllfa integredig priodol ar y farchnad a strategaeth gomisiynu integredig briodol. Bydd y rhain yn nodi'r canlyniadau y mae gofyn i gartrefi gofal eu cyflawni, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sy'n ofynnol. Dylai fod cytundeb ynghylch

y dulliau comisiynu hefyd (er enghraifft, gall fod yn ofynnol sefydlu contract bloc ar gyfer rhai gwasanaethau – gwelyau gofal canolradd camu i fyny, camu i lawr, gofal seibiant).

- Cytuno ar gontract cyffredin a manyleb gyffredin.
- Datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr.
- Datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd.
- Mabwysiadu defnydd tryloyw o adnoddau. Mae'n rhaid i gyllidebau fod wedi'u halinio â'r gwariant ar y cyfan a adnabuwyd, ynghyd ag ymrwymiadau ariannol y ddwy asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddarostyngedig i gytundeb ysgrifenedig.

Y diben yw sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio i gynyddu eu dylanwad i'r eithaf i drefnu datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod capasiti digonol ac ystod briodol o wasanaethau o ansawdd da i ymateb i anghenion pobl yn eu rhanbarth. Dylai hyn gwmpasu lleoliadau'r awdurdod lleol a lleoliadau a ariennir gan y GIG (gofal nyrsio a ariennir gan y GIG a gofal iechyd parhaus y GIG). Dylai hefyd gwmpasu lleoliadau interim byrdymor i hwyluso'r broses o drosglwyddo gofal o'r ysbyty a dewis o lety; gwelyau gofal canolradd (camu i fyny / camu i lawr), lleoliadau hirdymor, gofal seibiant a gwasanaethau eraill y mae partneriaid yn dymuno'u comisiynu gan gartrefi gofal. Wrth ddatblygu eu dull integredig mewn perthynas â chomisiynu, bydd angen i'r partneriaid ystyried anghenion pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

Mae'n rhaid sefydlu trefniadau monitro cynhwysfawr i roi sicrwydd perthnasol i bartneriaid bod eu nodau ac amcanion cyffredin yn cael eu cyflawni.

Mae adran 168 yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi trwy reoliadau ei bod yn ofynnol sefydlu byrddau partneriaeth mewn perthynas â threfniadau partneriaeth a wneir dan adran 166. Mewn perthynas ag adran 168, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau cynllunio strategol a threfniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol yn eu lle i ddiwallu anghenion y briod boblogaeth yn y ffordd orau. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol, sef bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent, bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru, bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin, bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf, bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Cymru a bwrdd partneriaeth rhanbarthol Powys.

Amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol yw:

(a) Sicrhau bod y byrddau partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i:
(i) Ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gwblhawyd yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf a
(ii) Gweithredu'r cynlluniau ar gyfer ardal pob awdurdod lleol a wasanaethir gan y bwrdd y mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol eu paratoi a'u cyhoeddi dan adran 14A o'r Ddeddf.
(b) Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol yn unol â'u pwerau dan adran 167 o'r Ddeddf.
(c) Hybu'r arfer o sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

Bydd y gofynion hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol adnabod cyfleoedd o'u hasesiadau o'r boblogaeth a gofynion gwasanaethau i integreiddio

gwasanaethau lle bydd hyn yn gwella canlyniadau i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a'u teuluoedd ac yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Byddant hefyd yn adnabod cyfleoedd i wella iechyd a llesiant dinasyddion.

Bydd aelodaeth y byrddau'n sicrhau ymgysylltiad Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol, ynghyd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ac ymgysylltiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a gofalwyr. Bydd y byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn gallu cyfethol aelodau eraill fel y bo'n briodol.

Mae'r trefniadau hyn wedi'u bwriadu i gynnwys 'cefnogaeth a her' fel rhan o ddatblygu a rheoli gwasanaethau gyda'r holl sectorau'n cael eu cynrychioli a defnyddwyr a gofalwyr hefyd. Bydd cynrychiolwyr defnyddwyr, gofalwyr, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn sicrhau bod cyfraniadau a barn y rhanddeiliaid hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol baratoi adroddiad sy'n disgrifio i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi cael eu cyflawni. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu defnyddio i werthuso cynnydd ac i sicrhau bod cyfleoedd i wella canlyniadau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol yn cael eu hadnabod a'u defnyddio.

Er mwyn cynorthwyo llywodraeth leol a'i phartneriaid i bontio i'r trefniadau newydd dan y Ddeddf, trefnwyd fod Grant Cyflawni Trawsnewid ar gael i'r chwe phartneriaeth ranbarthol a phartneriaid cenedlaethol penodol i alluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid i ateb gofynion y Ddeddf newydd yn 2013/14 a 2014/15. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyblu'r cyllid sydd ar gael trwy'r grant hwn i £3m yn 2015/16.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Cafodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gydsyniad brenhinol ym mis Mai 2014 ac fe wnaeth yr asesiadau o'r effaith, a gynhaliwyd pan oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n craffu ar y Bil, ganfod effeithiau sylweddol pe na bai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys anghynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau demograffig, y ffaith bod gwasanaethau'n canolbwyntio'n gynyddol ar y rhai sydd ar lefel gritigol ac yn cael eu cyfyngu'n fwyfwy i'r bobl hynny, a diffyg camau o unrhyw fath o fewn y system i ymyrryd ac atal yn gynnar.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gefnogi'r broses graffu trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Canfu'r asesiad o'r effaith fod y Bil wedi'i fwriadu i greu system decach a mwy cyfartal ar gyfer yr holl bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, a bod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir.

Er bod y safonau cyfredol yn seiliedig ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, bydd safonau newydd a ddatblygwyd o dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn dod i rym o fis Ebrill 2016 ar yr un pryd ag y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014 yn cael ei rhoi ar waith.

Mae egwyddorion allweddol ‘Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol’[1] wedi cael eu sefydlu yn y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i’r holl bobl a sefydliadau sy’n rhan o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru yn amlinellu’r heriau sy’n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a dull Llywodraeth Cymru o ymateb i’r heriau hynny, gan gynnwys datblygu rhaglen o bolisi a deddfwriaeth.

Caiff y codau ymarfer mewn perthynas ag asesu a diwallu anghenion unigolion ei danategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf. Mae’r codau’n nodi bod yn rhaid i’r broses asesu ystyried nodweddion, diwylliant, iaith a chredoau’r unigolyn. Mae hefyd yn nodi y dylai’r dyfarniadau ynghylch cymhwystra i gael gofal a chymorth gael eu gweithredu yn yr iaith y mae ar yr unigolyn angen ei defnyddio.

Dylai’r broses hefyd gydnabod cysyniad anghenion ieithyddol, a dylai asesiadau o anghenion gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg (yn ôl yr hyn sy’n briodol i’r unigolyn neu’r teulu dan sylw).

Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain trwy gydol y broses o adnabod a diwallu anghenion gofal a chymorth.

Mae’r cod ymarfer yn ei gwneud yn glir hefyd na ddylai’r gofyniad i gael asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg achosi oedi yn y broses o asesu anghenion unigolyn.

Yn ystod y broses, dylai unigolyn allu cyfranogi’n llawn trwy allu mynegi ei hun trwy ei ddewis iaith a dull cyfathrebu.

Mae’r broses o asesu a diwallu anghenion unigolion hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â’r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol (NMCDS). Un o ofynion NMCDS yw bod yn rhaid i’r asesiad gael ei gofnodi yn y ddewis Iaith / y dewis Ddull Cyfathrebu fel sy’n briodol i anghenion y plentyn neu’r oedolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu.

Mae’r Ddeddf yn manylu ar y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn rhoi effaith i’r polisi a nodir yn y Papur Gwyn, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu.

Mae’r Fframwaith yn sicrhau y bydd y gyfres lawn o is-ddeddfwriaeth wedi’i sefydlu erbyn mis Ebrill 2016.

| |
|---|
| Bydd cynnwys gofynion o ran y Gymraeg o fewn y broses gomisiynu'n sicrhau y dylai fod gan sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth uniongyrchol megis gofal cartref, gofal preswyl, gwasanaethau cymorth i deuluoedd a.y.b. gapasiti priodol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?** |
| Rhoddwyd ymrwymiad gan y Gweinidog y byddai'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n tanategu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg. O ganlyniad i hyn, caiff rheoliadau a chodau ymarfer oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf 'r(h)oi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'.<br><br>Mae egwyddorion allweddol 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'[2] wedi cael eu sefydlu yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.<br><br>Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn mynd i'r afael â llawer o'r nodau yn "Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17". Mae'r rheoliadau, mewn perthynas ag asesu anghenion unigolion, yn gwneud darpariaeth ar gyfer 5 o'r nodau i wneud y canlynol:<br><br>• cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith<br>• cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned<br>• cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle<br>• gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion<br>• cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.<br><br>1. <u>Cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith</u> |

O fewn y rheoliadau ar gyfer asesu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae gofyniad wedi cael ei gynnwys i sicrhau bod yn rhaid i'r asesiad o anghenion gael ei gofnodi yn newis iaith / dewis ddull cyfathrebu'r unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu. Hefyd, dylai unigolion a'u teuluoedd allu cyfranogi'n llawn yn y broses trwy fod â'r holl wybodaeth ar gael mewn fformat sy'n hygyrch iddynt gan gynnwys trwy eu dewis iaith a'u dewis ddull cyfathrebu. Mae'n rhaid i wybodaeth fod yn hygyrch trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan adlewyrchu Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau' a chan gydymffurfio maes o law gyda Safonau newydd y Gymraeg.

2. Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned

Prif amcan y polisi yw hybu annibyniaeth unigolyn a sicrhau bod gan yr unigolyn fwy o lais a rheolaeth dros ei ofal a'i gymorth. Mae'n rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg. Hefyd, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn sicrhau bod gofal a chymorth ar gael ac yn cael eu darparu mewn ffordd decach a mwy cyfartal. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf lle mae mwy o wasanaethau ar gael yn Gymraeg.

3. Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer ei swyddogaethau i hybu llesiant unigolion, gan gynnwys dyletswydd i roi ystyriaeth i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith). Mae hyn yn cryfhau'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio i wella llesiant pobl ac ansawdd gofal a chymorth.

4. Gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys o'r dechrau fel rhan o'r broses o gynllunio gofal a chymorth. Mae'r cod ymarfer ar gyfer asesu'n nodi bod yn rhaid i'r broses asesu gael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (fel sy'n briodol i'r unigolyn neu'r teulu dan sylw). Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cael gwasanaethau yn ei iaith ei hun trwy gydol y broses o adnabod a diwallu anghenion gofal a chymorth.

I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed ac mae rhoi'r cyfrifoldeb am ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg iddynt hwy'n gallu cyfrannu at eu gorbryder. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; cyfeirir at hyn yn 'Mwy na Geiriau' fel y "Cynnig Gweithredol".

Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fynd ati ar y cyd i gynnal asesiad o anghenion am ofal a chymorth, ac anghenion gofalwyr am gymorth yn ardal yr awdurdod lleol (asesiad o anghenion y boblogaeth). Mae'n rhaid i'r asesiad hwn hefyd ganfod ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny gan gynnwys sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael ar-lein, yn ychwanegol at ddulliau eraill, mewn fformat hygyrch a bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i gael mynediad at y gwasanaeth gofal a chymorth.

O fis Mawrth 2016 bydd Safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar gyfer 26 o gyrff gwasanaethau cyhoeddus, yr un pryd ag y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod yn weithredol.

Roedd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015, yn nodi'r safonau canlynol:

- safonau cyflenwi gwasanaethau a bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol.
- safonau llunio polisi
- safonau gweithredu a bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol
- safonau hybu a bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau cadw cofnodion penodol
- materion atodol

Bydd y safonau hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith roi ystyriaeth hefyd i'r safonau a hysbysiadau cydymffurfio a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hydref 2015, ac a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**
h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a'i deddfwriaeth gysylltiedig, yn sicrhau bod gofal a chymorth ar gael ac yn cael eu darparu mewn

ffordd decach a mwy cyfartal. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg, a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, o ganlyniad i'r ffaith y bydd mwy o wasanaethau ar gael yn Gymraeg yn y dyfodol.

Mae Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau', yn cydnabod cysyniad anghenion ieithyddol. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed ac mae rhoi'r cyfrifoldeb am ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg iddynt hwy'n gallu cyfrannu at eu gorbryder. Cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; cyfeirir at hyn yn 'Mwy na Geiriau' fel y "Cynnig Gweithredol".

O fis Mawrth 2016 bydd Safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar gyfer 26 o gyrff gwasanaethau cyhoeddus, yr un pryd ag y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod yn weithredol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith roi ystyriaeth hefyd i'r safonau a hysbysiadau cydymffurfio a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hydref 2015, ac a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r holl bobl yng Nghymru ac arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr ac arnynt angen cymorth.

Caiff y rheoliadau eu tanategu gan egwyddorion y Ddeddf sy'n datgan bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw unigolion y mae eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu hasesu gan yr awdurdod lleol yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg os byddant yn dymuno.

Fel a nodwyd uchod mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â llawer o'r nodau yn *Iaith fyw: iaith byw,* sy'n mynd i'r afael mewn modd cadarnhaol ag anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Fe wnaeth y broses ymgynghori a digwyddiadau ymgysylltu eang gasglu llawer o safbwyntiau, a oedd yn cynnwys sylwadau gan *Estyn Llaw,* a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgysylltu fel rhan o'r ymgynghoriad i gynnig cymorth ac arweiniad ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r Ddeddf.

| |
|---|
| Mae’n rhaid i awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am roi’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith roi ystyriaeth hefyd i’r safonau a hysbysiadau cydymffurfio a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg yn hydref 2015, ac a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.<br><br>Mae’r ffordd y mae’r is-ddeddfwriaeth wedi cael ei drafftio’n golygu bod y Gymraeg, a’i lle o ran cynorthwyo unigolion i ymgysylltu’n llawn â’r broses gofal a chymorth a chyfranogi’n llawn ynddi, yn hanfodol i wella gallu pobl i fod â llais a rheolaeth dros eu bywydau. |
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Amherthnasol |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi’u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Cafodd yr holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd a oedd yn ategu’r ymarfer ymgynghori ynghylch y rheoliadau a’r codau ymarfer (Cyfres 1 a 2) eu darparu’n ddwyieithog.<br><br>Roedd y deunyddiau dwyieithog yn cynnwys:<br><br>Dogfennau Ymgynghori<br><br>Cwestiynau Ymgynghori<br><br>Crynodeb Gweithredol<br><br>Crynodeb Gweithredol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc<br><br>Crynodeb Gweithredol Hawdd i’w Ddarllen. |
| **CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU** |
| <u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u><br><br>Gan na chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol yn ystod yr asesiad effaith cychwynnol, ni chwblhawyd Offeryn Asesu Risgiau. |
| **Effeithiau cadarnhaol:** |
| |

Bydd y rhaglen waith yn darparu'r effeithiau cadarnhaol canlynol:

- mae hawliau'r unigolyn wedi'u gosod ar wyneb y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i sefydlu'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg, *Mwy na Geiriau*, a defnydd cynyddol o wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg a chynnydd yn eu hargaeledd (cynnydd yn y cynnig gweithredol ac yn y nifer sy'n manteisio ar y cynnydd gweithredol lle gofynnir amdano). Bydd hyn yn rhoi mwy o lais, rheolaeth a mewnbwn i bobl o ran y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant;
- dylai gynyddu nifer y staff Cymraeg sy'n gweithio o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, i gynorthwyo gwasanaethau i siarad yn eu dewis iaith;
- mae hefyd yn cynnig y potensial i helpu i gadw staff pwrpasol mewn cymunedau Cymraeg.

**Effeithiau negyddol:**

Gall y rhaglen waith ddarparu'r effeithiau negyddol canlynol:

- efallai na fydd digon o staff Cymraeg i ateb y galw am ofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, a fyddai yn ei dro'n gosod gofynion ychwanegol ar y gweithlu Cymraeg presennol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- efallai na fydd sgiliau iaith Gymraeg staff gofal a chymorth ar lefel ddigonol i gynnig gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg; gallai hyn arwain at anghenion hyfforddi cynyddol ar gyfer y staff Cymraeg hynny.

**Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Bydd y rhaglen waith yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg:

- bydd cynigion rhagweithiol a gwasanaethau proffesiynol di-dor yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ac yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr i wneud mwy i ystyried y defnyddiwr a'i anghenion a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na disgwyl nes gofynnir iddynt wneud hynny;
- mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu hybu ar gyfer plant a phobl ifanc a dylent sicrhau agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg;
- bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog i aros mewn cymunedau Cymraeg

neu ddychwelyd iddynt;

- annog pobl (gan gynnwys staff) i wella'u sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus ac felly wella hyder a defnydd pan fo pobl yn derbyn gofal a chymorth o ddydd i ddydd yn Gymraeg;
- cyfrannu tuag at yr amcanion polisi yn 'Iaith fyw: iaith byw' a chynyddu niferoedd neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
- cynyddu amlygrwydd siaradwyr Cymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt;
- cynyddu sgiliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg presennol i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith/yn broffesiynol.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Asesu yn datgan bod iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei gael ac mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr.

Mae'r cod yn ei gwneud yn eglur y dylai'r asesiadau o angen gael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel sy'n briodol i'r unigolyn neu'r teulu dan sylw, ac na ddylai'r dewis hwn achosi oedi yn y broses asesu.

Un o'r gofynion a nodir yn y cod ymarfer yw bod yn rhaid i'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol gadw cofnod o'r asesiad yn y ddewis Iaith / y dewis Ddull Cyfathrebu fel sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r oedolyn y mae ei anghenion yn cael eu hasesu.

Mae'n rhaid i'r asesiad o anghenion y boblogaeth ystyried anghenion pobl y mae'n well ganddynt gael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Yn 2011, fe gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adroddiad "Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol" a oedd yn nodi'r canlyniadau i bobl nad ydynt yn derbyn gofal yn eu dewis iaith. Roedd yr adroddiad yn datgan bod "tystiolaeth fyd-eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau ieithyddol ym maes gofal – diffyg mynediad at wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd defnyddwyr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau o ran cael cydsyniad; problemau gyda pharhad y gofal gan fod y defnyddiwr yn cael ei atgyfeirio o un asiantaeth at y nesaf; diffyg gofal o ansawdd; diogelwch defnyddwyr; statws iechyd y defnyddiwr; costau gofal – costau personol i'r defnyddiwr a chostau ariannol i'r gwasanaeth".

Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn dwyn y teitl "Profiadau Siaradwyr Cymraeg o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol" gan IAITH yn 2012[3]. Fe'i cwblhawyd ar ran yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a

[3] Profiadau Siaradwyr Cymraeg o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Chyngor Gofal Cymru. Roedd yn canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y pedwar grŵp blaenoriaeth a adnabuwyd (plant; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai â dementia, a phobl ag anableddau dysgu), ac roedd yr ymchwil yn cadarnhau'r cyswllt rhwng iaith a gofal.

Mae'n tynnu ar enghreifftiau sy'n awgrymu y gall ansawdd y gofal ar gyfer defnyddwyr agored i niwed gael ei beryglu gan fethiant i gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf. Ymdrinnir hefyd â rôl hanfodol iaith fel offeryn asesu a diagnostig ac ystyrir bod y ddibyniaeth ar gyfieithu, gan ddefnyddio aelodau o'r teulu i gyfleu gwybodaeth rhwng y defnyddiwr gwasanaethau a'r gweithiwr proffesiynol, yn llawn problemau, a allai effeithio ar natur yr asesiad a gaiff ei gwblhau. I ddefnyddwyr a gofalwyr, ystyrir bod y gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn cael effaith ar ffurfio perthnasoedd clinigol a therapiwtig.

Canfu'r ymchwil hefyd fod ymatebwyr yn teimlo bod gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sawl maes yn aml yn cael eu darparu trwy hap a damwain ac mai anaml y maent yn cael eu cynllunio. Mae aelodau unigol o staff ar sawl lefel yn brin o hyder i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol; efallai fod asiantaethau sy'n cyflogi'n methu â chydnabod neu roi gwerth ar y sgiliau hyn, ac mae sgiliau iaith unigol yn aros yn guddiedig ac yn peidio â chael eu defnyddio o ganlyniad. Ymddengys fod y diwylliant sydd ohoni yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru'n seiliedig ar y disgwyliad y bydd defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr yn adnabod yr angen ac yn creu'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na bod yn seiliedig ar drefn lle mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswydd i gynnig a darparu. I nifer o unigolion sy'n agored i niwed ac wedi'u dadrymuso yn y grwpiau blaenoriaeth a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil, mae'r gallu i fynegi eu hangen a chreu galw yn aml y tu hwnt iddynt. Maent yn aml yn dibynnu ar ofalwyr a theulu i wneud hyn drostynt. Nid oes cymorth o'r fath gan lawer ohonynt. Felly mae ar y defnyddwyr gwasanaethau mwyaf agored i niwed ac ynysig angen mynediad at wasanaethau a systemau sylfaenol sy'n ddigon cadarn a dibynadwy i adnabod eu hanghenion ieithyddol ac ymateb yn briodol. Mae parch tuag at urddas unigolion yn mynnu hyn.

Mae adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn darparu tystiolaeth o ymchwil a gwblhawyd gan Llais Defnyddwyr Cymru yn 2010, "Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg". Mae'n datgan fel a ganlyn:

"Yn olaf, gan ystyried ymchwil sy'n ymwneud â defnyddwyr, fe gynhaliodd Llais Defnyddwyr Cymru arolwg o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn 2010. Fel sampl, gofynnwyd i 759 o siaradwyr Cymraeg am eu barn am wasanaethau Cymraeg. Wrth drafod y defnydd o'r Gymraeg dywedodd dros chwarter nad oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael: "Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella gwasanaethau presennol, yr un awgrym mwyaf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat oedd y dylai fod mwy o staff Cymraeg ar gael. Dywedodd 28% o'r holl ymatebwyr mai dyma oedd y rheswm

pam nad oeddent yn defnyddio’r Gymraeg yn fwy yn eu hymwneud â’r sector cyhoeddus”. O’r gwaith ansoddol a wnaed fel rhan o’r ymchwil hon, darganfuwyd hefyd nad oedd gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig.”

Mae ‘*Mwy na Geiriau’* yn cydnabod mai cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy’n diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr; a ddiffinnir fel y “cynnig gweithredol”. Mae’r ddeddfwriaeth a’r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a’r fframwaith mesur perfformiad yn sicrhau bod y ‘cynnig gweithredol’ yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant i bobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr ac arnynt angen cymorth. Bydd Safonau newydd y Gymraeg yn cynnig ysgogiad newydd i gyrff sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus gofleidio’r Gymraeg a’i chynnwys fel rhan o wasanaethau pob dydd – bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar gyfer pobl o bob oed, o blant i bobl hŷn.

Mae’r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio’r broses; ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd o effaith gwasanaethau cymdeithasol ar fywydau pobl a pha un a yw’r gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl. Felly mae bwlch sylweddol o ran tystiolaeth sy’n ategu ein dull i ddatblygu fframwaith canlyniadau sy’n mesur effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bydd y dull hwn yn cynnwys mesurau a fydd yn monitro pa un a yw pobl yn cael gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg a pha un a yw pobl yn cyfathrebu yn Gymraeg yn fwy eang gyda staff iechyd neu ofal cymdeithasol. Caiff y dull hwn ei nodi o dan adran 145 o’r Ddeddf, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr ac arnynt angen cymorth. Mae Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi cael ei gwblhau ar gyfer y fframwaith hwn.

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella’r canlyniadau i’r Gymraeg?**
**Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi’u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o 12 wythnos ynghylch y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf, ar Asesu a Diwallu Anghenion Unigolion. Parodd y cyfnod ymgynghori o 6 Tachwedd 2014 tan 2 Chwefror 2015.

Er nad oedd cwestiwn penodol ynghylch y Gymraeg, roedd un cwestiwn yn gofyn a fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Roedd gweithdai i gefnogi'r ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd yn cynnwys siaradwr Cymraeg ar y panel ac roedd cyfranogwyr yn gallu gofyn cwestiynau a chael ateb iddynt yn Gymraeg.

**CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Trefnwyd fod dogfennau ymgynghori ar gael, lle'r oedd yn briodol, yn Gymraeg gan gynnwys y dogfennau ymgynghori, crynodeb gweithredol ategol, fersiwn o'r crynodeb a oedd yn addas i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd i'w darllen o'r crynodeb. Hefyd, yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr adroddiad cryno'n cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Roedd ymateb cadarnhaol i'r ffaith bod y rheoliadau'n hybu pwyslais yn unol â 'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'.

Ni chafodd unrhyw faterion uniongyrchol eraill mewn perthynas â'r Gymraeg eu codi trwy ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion i fonitro swyddogaethau o dan y Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Gall Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rheoliadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwerthusiad i'w gwneud yn bosibl

| |
|---|
| ystyried effaith y model cenedlaethol newydd ar gyfer asesu a chymhwystra.<br><br>Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar feysydd megis y Gymraeg. |
| **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar y Gymraeg, a bydd hyn yn cynnwys ystyried y gwaith a wnaed o dan y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| |

**4. Datganiad**

| **Arweinydd polisi:**<br><br>**Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar y Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
|---|
| Enw: |
| Steve Vaughan |
| Adran: |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dyddiad(au): |
| Hydref 2015 |
| Llofnod: |
| |

| |
|---|
| Dyddiadau adolygu: |

| ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |